# Cynnwys

**1 Cyflwyniad ... 1**
**2 Adroddiad Cwmpasu'r ACI ... 27**
**3 Asesiad o'r CCCT ... 58**
**4 Casgliad & Y Camau Nesaf ... 99**

# Tablau

Tabl 1-1: Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) ... 8
Tabl 1-2: Y pum dull o weithio a'r CCCT/ACI ... 10
Tabl 1-3: Gofynion ar gyfer Adroddiad Amgylcheddol AAS ac a yw'r rhain wedi'u bodloni ... 13
Tabl 1-4: Diffiniadau o Effeithiau Eilaidd, Cyfunol a Synergyddol ... 25
Tabl 2-1 - Crynodeb o gynlluniau a rhaglenni rhyngwladol a chenedlaethol a adolygwyd ... 28
Tabl 2-2: Materion a chyfleoedd cynaliadwyedd yng Nghymru a nodwyd yn ystod yr adolygiad o amodau sylfaenol ... 31
Tabl 2-3: Amcanion a Chwestiynau Fframwaith yr ACI ... 50
Tabl 2-4 Pynciau'r Rheoliadau AAS a phrif amcanion perthnasol yr ACI ... 56
Tabl 3-1: Allwedd Asesu ar gyfer ACI ... 61
Tabl 3-2: Crynodeb o arfarniadau'r blaenoriaethau allweddol ... 62
Tabl 3-3: Crynodeb o arfarniadau dulliau a sectorau ... 62
Tabl 3-4: Crynodeb o arfarniadau rhaglenni ... 63
Tabl 3-5: Crynodeb o sgoriau yr asesiad o'r effeithiau cyfunol (asesiad llawn yn Nhabl 3-5) ... 75
Tabl 3-6. Effeithiau cyfunol y CCCT ... 76
Tabl 3-7: Argymhellion i'r CCCT drafft ... 88
Tabl 3-8: Fframwaith Monitro Arfaethedig ... 96

# Ffigurau

Ffigur 1-1: Amlinelliad o Broses yr ACI a'r CCCT ... 6
Ffigur 1-2: Asesiadau effaith i'w hintegreiddio ochr yn ochr â'r ACI/AAS ... 7
Ffigur 1-3: Y Nodau Llesiant a'r Pum Dull o Weithio ... 10

| Acronym | Ystyr |
|---|---|
| **CCRA** | Asesiad Perygl Newid Hinsawdd |
| **$CO_2$** | Carbon Deuocsid |
| **ACI** | Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| **$NO_2$** | Nitrogen Deuocsid |
| **CCCT** | Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth |
| **$PM_{10}$** | Deunydd Gronynnol |
| **AC** | Asesiad Cynaliadwyedd |
| **ACA** | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| **AAS** | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| **SoNaRR** | Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol |
| **AGA** | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| **TAN11** | Nodyn Cyngor Technegol 11 |
| **Y DU** | Y Deyrnas Unedig |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |
| **SDC** | Strategaeth Drafnidiaeth Cymru |

- Cynllunio Teithiau a Thocynnau Integredig
- Newid Ymddygiad
- Teithio Llesol
- Bysiau
- Rheilffyrdd
  - Mynediad i Bawb
  - Prosiectau Gwella Caerdydd Canolog
  - Rhaglen o welliannau wedi'u targedu parhaus i orsafoedd ar draws Rhwydwaith Cymru a'r Gororau
  - Cyflwyno gwasanaethau rheilffyrdd ychwanegol
  - Cyflwyno Cerbydau newydd
  - Rheilffyrdd Cymunedol, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Newid Dulliau Teithio
- Prif Reilffordd De Cymru
  - Datblygiad Strategol Prif Reilffordd De Cymru
  - Gorsafoedd Ychwanegol (5) rhwng Caerdydd a Chyffordd Twnnel Hafren
  - Caerdydd i Abertawe gan gynnwys pecyn Gorsafoedd Newydd
  - Gwelliannau i gyflymder a chapasiti rheilffordd Abertawe i Gyffordd Twnnel Hafren
  - Trydaneiddio Caerdydd i Abertawe
  - Trydaneiddio Penarth/ Bro Morgannwg
- Metro Gogledd Cymru
  - Datblygiad Strategol gan gynnwys astudiaethau a dadansoddiad i hysbysu cynlluniau yn y dyfodol
  - Cysylltedd Lleol Teithio Llesol: Gorsafoedd a Thrawsnewid Trefi
  - Canolfannau Cyfnewid
  - Lein y Gororau
  - Camau 1/2/3 Prif Reilffordd Gogledd Cymru
  - Glannau Dyfrdwy
  - Cyfnewidfa Shotton
  - Arloesi Rheilffyrdd Gogledd a Gorllewin Cymru
- Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru
  - Ailagor Gorsaf Sanclêr
  - Gwelliannau i Gyfnewidfeydd a Hybiau Rheilffordd Gorllewin Cymru
  - Camau 1 a 2 Metro Ardal Bae Abertawe
  - Prosiect Bysiau Cell Danwydd Hydrogen Bae Abertawe
  - Prosiect Bysiau Cell Danwydd Hydrogen Sir Benfro
  - Prosiect Bysiau Cell Danwydd Hydrogen Traws Cymru T5
  - Prosiect Bysiau Cell Danwydd Hydrogen Traws Cymru T6
  - Teithio Llesol i Orsafoedd
  - Cyswllt Trafnidiaeth Abertawe i Aberystwyth
- Metro De Cymru

- Datblygiad strategol gan gynnwys astudiaethau a dadansoddiad i hysbysu cynlluniau ac estyniadau yn y dyfodol
    - Pecyn Gwelliannau Llinellau Craidd y Cymoedd
    - Pecyn Estyniadau Llinellau Craidd y Cymoedd
    - Pecyn Gwelliannau ac Estyniadau i Reilffyrdd y Cymoedd (nid Llinellau Craidd y Cymoedd)
    - Pecynnau Gwelliannau i Orsafoedd Lleol/ Cyfnewidfeydd
    - Pecyn Teithio Llesol
    - Pecyn Bysiau a Thramwy Cyflym Bysiau
    - Astudiaethau Coridor Fframwaith Gwella'r Metro
- Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
    - Rhaglen Flynyddol o Gynnal a Chadw ac Adnewyddu Cyfalaf
    - Cynlluniau sydd Wrthi'n cael eu Hadeiladu
    - Cynlluniau Trawsffiniol
    - Rhaglen Teithio Llesol Cefnffyrdd
    - Rhaglen Newid Dulliau Teithio Cefnffyrdd
    - Rhaglen Diogelwch a Chydnerthedd Cefnffyrdd
- Gwefru Cerbydau Trydan
- Cludo Nwyddau a Logisteg
- Strydoedd a Pharcio
- Ansawdd Aer
- Hedfanaeth
- Y Trydydd Sector
- Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat
- Porthladdoedd a'r Môr

C. Llwybrau Cyflawni

N.11. Mae'r ACI wedi canolbwyntio ar arfarnu'r blaenoriaethau allweddol, dulliau a sectorau, a rhaglenni.

## Canlyniadau Arfarnu

N.12. Mae Adroddiad yr ACI a'i atodiadau yn cyflwyno'r canlyniadau asesu llawn a manwl ar gyfer y CCCT. Darperir crynodeb o ganlyniadau'r ACI yn Nhabl N-2.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Beth yw'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth?

1.1.1 Mae'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth (CCCT) 5 mlynedd, ynghyd â Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, yn ceisio gweithredu'r blaenoriaethau a nodwyd yn Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 (SDC)[5], trwy brosiectau, cynlluniau, mentrau neu ymyriadau penodol a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y CCCT yn nodi gwariant, gan gynnwys cyflawni prosiectau sydd eisoes ar waith. Bydd y CCCT hefyd yn cefnogi gweithrediad SDC a Cymru'r Dyfodol – y Cynllun Cenedlaethol 2040[6], a bydd hefyd wedi'i gyfochri â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru[7] a Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru[8] a chaiff ei adolygu bob pum mlynedd. Bydd angen i'r CCCT ystyried symudiadau pobl a nwyddau.

### Datganiad o'r Cronfeydd sydd ar Gael

1.1.2 Nodir cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, ac maent yn ddiweddariad i'r gyllideb a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022. Mae'r gyllideb yn cynnig canllaw i'r lefelau o wariant ar wasanaethau trafnidiaeth, cynnal a chadw a phrosiectau sydd yn yr arfaeth ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, oherwydd setliad cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru, nid yw'r rhain yn ymrwymiad cyfalaf a refeniw absoliwt ar gyfer hyd y cynllun. Efallai y bydd angen addasu cynlluniau yn y dyfodol oherwydd rhwystrau ariannol gan gynnwys y sgil-effeithiau o fini-gyllideb mis Medi, pwysau chwyddiant, yr argyfwng costau byw, Brexit a'r gwrthdaro yn Wcráin. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Perfformiad Trafnidiaeth i adolygu eu cynnydd cyffredinol ar SDC a bydd yn cynnwys rhanddeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr, y sector masnachol a'r trydydd sector, awdurdodau lleol a grwpiau cydraddoldeb i gefnogi gwaith y Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn monitro'r cynlluniau ategol gan gynnwys y CCCT. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Newid dulliau teithio -** Mae newid dulliau teithio wrth wraidd SDC. Mae Cymru Sero Net – Cyllideb Garbon (2021-2025)[9] yn cynnwys datganiad uchelgais ar gyfer y sector trafnidiaeth i leihau allyriadau carbon gan drafnidiaeth teithwyr 22% erbyn 2025, a 98% erbyn 2050[10]. Mae'r mesurau i'w monitro yn cynnwys:
  - Y defnydd o gerbydau trydan.
  - Gweithio o bell: Mae Cymru wedi pennu targed o 30% o'r gweithlu yn gweithio o bell yn rheolaidd. Bydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o ran lleihau galw yn cynorthwyo i gyflawni hyn.

| Nodau Llesiant | Crynodeb o Faterion Allweddol | Cyfleoedd i'r CCCT Roi Sylw Iddynt |
|---|---|---|
| | gall traffig sy'n gwahanu cymunedau o bobtu'r ffordd gynyddu ynysigrwydd hefyd.<br>• Pan fydd pobl yn teithio, dylent allu gwneud hynny yn ddi-ofn a heb deimlo dan fygythiad trosedd. | perygl i ddefnyddwyr anfodurol a lleihau'r broblem o ynysigrwydd.<br>Gallai'r CCCT ystyried cynigion trafnidiaeth strategol o ran y cyfleoedd y maent yn eu cynnig i annog cydraddoldeb rhanbarthol yn ogystal â gwella iechyd pobl, tirwedd a chadwraeth natur trwy leihau llygredd sŵn a golau. Gall cynlluniau trafnidiaeth wella diogelwch ar y ffyrdd, a all wella diogelwch gwirionedd a thybiedig ar y ffyrdd. Gellir gwella straen gyrwyr hefyd trwy gyflwynol cynlluniau trafnidiaeth. |
| 5. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | ***Y Gymraeg***<br>• Bu tuedd ar i fyny ers yr 1990au o ran nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, gan nodi amrywiadau rhanbarthol mawr; ceir cyfleoedd i gynyddu lefelau rhugldeb.<br>• Mewn rhai achosion, mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn brin, er enghraifft oherwydd y ffaith nad yw staff gwasanaeth cwsmeriaid yn siarad Cymraeg. | ***Y Gymraeg***<br>Mae gan y CCCT gyfle i ddiogelu'r Gymraeg a hybu'r defnydd ohoni drwy'r system drafnidiaeth drwy annog ei defnydd ar arwyddion ac ymhlith cyflogeion gorsafoedd bysiau a rheilffordd.<br>Gallai'r CCCT geisio sicrhau bod mynediad at gyfleusterau addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei dargedu yn benodol yn rhan o'r nod hwn, i gefnogi'r strategaeth sy'n ceisio ehangu'r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg.<br>Gallai'r CCCT hefyd geisio cefnogi'r nod o gynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau a gynigir i |

2.4.3 Gan fod paratoi CCCT yn broses ailadroddol, mae’r ACI wedi arfarnu’r CCCT drafft a fersiynau terfynol o’r CCCT, gan gymryd rhan mewn trafodaethau gyda thimau’r CCCT a rhanbarthol. Cyn paratoi’r CCCT terfynol, ystyriwyd opsiynau eraill drwy’r broses o lunio’r cynllun, gan gynnwys trwy broses Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, ac felly diystyrwyd rhai cynigion cyn cyrraedd cam y CCCT drafft, ac ni ystyriwyd eu bod yn opsiynau amgen resymol i’w harfarnu drwy’r ACI. Arfarnwyd yr holl opsiynau a gyflwynwyd yn y CCCT drafft yn yr Adroddiad ACI Interim. Mae fersiwn derfynol y CCCT wedi mireinio’r opsiynau hyn, gan gymryd yr arfarniadau a'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr Adroddiad ACI Interim i ystyriaeth. Mae’r fersiwn derfynol hon o’r ACI wedi arfarnu fersiwn derfynol y CCCT a’r opsiynau a ffefrir wedyn.

  - Cyflwyno Cerbydau newydd
  - Rheilffyrdd Cymunedol, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Newid Dulliau Teithio
- Prif Reilffordd De Cymru
  - Datblygiad Strategol Prif Reilffordd De Cymru
  - Gorsafoedd Ychwanegol (5) rhwng Caerdydd a Chyffordd Twnnel Hafren
  - Caerdydd i Abertawe gan gynnwys pecyn Gorsafoedd Newydd
  - Gwelliannau i gyflymder a chapasiti rheilffordd Abertawe i Gyffordd Twnnel Hafren
  - Trydaneiddio Caerdydd i Abertawe
  - Trydaneiddio Penarth/ Bro Morgannwg
- Metro Gogledd Cymru
  - Datblygiad Strategol gan gynnwys astudiaethau a dadansoddiad i hysbysu cynlluniau yn y dyfodol
  - Cysylltedd Lleol Teithio Llesol: Gorsafoedd a Thrawsnewid Trefi
  - Canolfannau Cyfnewid
  - Lein y Gororau
  - Camau 1/2/3 Prif Reilffordd Gogledd Cymru
  - Glannau Dyfrdwy
  - Cyfnewidfa Shotton
  - Arloesi Rheilffyrdd Gogledd a Gorllewin Cymru
- Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru
  - Ailagor Gorsaf Sanclêr
  - Gwelliannau i Gyfnewidfeydd a Hybiau Rheilffordd Gorllewin Cymru
  - Camau 1 a 2 Metro Ardal Bae Abertawe
  - Prosiect Bysiau Cell Danwydd Hydrogen Bae Abertawe
  - Prosiect Bysiau Cell Danwydd Hydrogen Sir Benfro
  - Prosiect Bysiau Cell Danwydd Hydrogen Traws Cymru T5
  - Prosiect Bysiau Cell Danwydd Hydrogen Traws Cymru T6
  - Teithio Llesol i Orsafoedd
  - Cyswllt Trafnidiaeth Abertawe i Aberystwyth
- Metro De Cymru
  - Datblygiad strategol gan gynnwys astudiaethau a dadansoddiad i hysbysu cynlluniau ac estyniadau yn y dyfodol
  - Pecyn Gwelliannau Llinellau Craidd y Cymoedd
  - Pecyn Estyniadau Llinellau Craidd y Cymoedd
  - Pecyn Gwelliannau ac Estyniadau i Reilffyrdd y Cymoedd (nid Llinellau Craidd y Cymoedd)
  - Pecynnau Gwelliannau i Orsafoedd Lleol/ Cyfnewidfeydd
  - Pecyn Teithio Llesol
  - Pecyn Bysiau a Thramwy Cyflym Bysiau
  - Astudiaethau Coridor Fframwaith Gwella'r Metro

- Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
    - Rhaglen Flynyddol o Gynnal a Chadw ac Adnewyddu Cyfalaf
    - Cynlluniau sydd Wrthi'n cael eu Hadeiladu
    - Cynlluniau Trawsffiniol
    - Rhaglen Teithio Llesol Cefnffyrdd
    - Rhaglen Newid Dulliau Teithio Cefnffyrdd
    - Rhaglen Diogelwch a Chydnerthedd Cefnffyrdd
- Gwefru Cerbydau Trydan
- Cludo Nwyddau a Logisteg
- Strydoedd a Pharcio
- Ansawdd Aer
- Hedfanaeth
- Y Trydydd Sector
- Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat
- Porthladdoedd a'r Môr

A. Llwybrau Cyflawni

3.1.3 Mae'r ACI wedi canolbwyntio ar arfarnu'r blaenoriaethau allweddol, dulliau a sectorau, a rhaglenni.

3.1.4 Mae'r blaenoriaethau a gyflwynir yn y CCCT yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodwyd yn SDC, ac mae'r CCCT yn nodi sut y bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflawni. Mae'r arfarniad o flaenoriaethau'r CCCT yn debyg i raddau helaeth felly i'r arfarniad o flaenoriaethau SDC a baratowyd yn 2021. Mae dulliau a sectorau'r CCCT yn cyd-fynd â Chynlluniau Cryno SDC. Eto, mae dulliau a sectorau'r CCCT yn ymhelaethu ac yn cynnig manylion ychwanegol i'r hyn a roddir yn SDC. Felly mae'r arfarniad o'r dulliau a'r sectorau yn dilyn yr arfarniad o'r Cynlluniau Cryno a baratowyd yn 2021 i raddau helaeth.

3.1.5 Mae rhaglenni'r CCCT yn dynodi amserlenni'r cynigion a'r mentrau a gyflwynir yn adrannau dulliau a sectorau'r CCCT. Mae'r rhestr o raglenni yn cynnwys cynlluniau neu gynigion penodol y byddai disgwyl iddynt helpu i hwyluso blaenoriaethau a nodau allweddol y CCCT. Bydd yr holl brosiectau a nodir o fewn rhaglen yn cael eu hasesu yn rhan o ffrwd waith annibynnol. Swyddogaeth yr ACI yw arfarnu a yw'r fenter yn ei chyfanrwydd yn cyd-fynd ag uchelgeisiau SDC ac y byddai'n arwain at ddatblygiad cynaliadwy.

3.1.6 Aseswyd rhai o'r prosiectau a amlinellwyd yn y rhaglenni gan brosesau arfarnu eraill, gan gynnwys trwy broses Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru ac yn rhan o Adolygiad Ffyrdd Cymru. Mae Atodiad C yn nodi asesiadau cydweddoldeb o ganllawiau Asesiad Effaith Integredig Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru a meini prawf Adolygiad Ffyrdd Cymru yn erbyn Amcanion yr ACI. Mae'r asesiadau cydweddoldeb yn tynnu sylw at y ffaith fod llawer o'r meini prawf a ddefnyddir yn y ddwy broses asesu hyn yn cyd-fynd ag Amcanion yr ACI. Felly nid yw proses yr ACI

| Amcan yr ACI | 1. Iechyd | 2. Cydlyniant a chydraddoldeb | 3. Datblygu economaidd | 4. Diwylliant Cymru | 5. Y Gymraeg | 6. Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr | 7. Cydnerthedd yn erbyn newid hinsawdd | 8. Ansawdd aer | 9. Tirweddau a threfluniau | 10. Treftadaeth | 11. Ecosystemau | 12. Adnoddau Naturiol | 13. Tawelwch |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen: Porthladdoedd a'r Môr | O | + | +/- | + | O | + | ? | +/- | ? | ? | - | + | - |

## 3.2 Crynodeb o'r Asesiadau Effaith Deddfwriaethol

### Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

3.2.1 Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn broses gyfochrog ond ar wahân i'r ACI. Paratowyd dogfen Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n asesu'r dulliau a'r sectorau a'r rhaglenni a gyflwynir yn y CCCT.

3.2.2 Mae nifer o adrannau'r CCCT a rhaglenni Atodiad 2 wedi cael eu sgrinio i mewn ar y sail y gallai'r cynigion gael effaith arwyddocaol debygol ar nodweddion cymhwysol neu amcanion cadwraeth safle Ewropeaidd neu Ramsar.

3.2.3 Nodwyd rhywfaint o ansicrwydd hefyd o ran rhai rhaglenni na fu sgrinio'n bosibl ar eu cyfer ar hyn o bryd gan nad yw lleoliadau seilwaith wedi'u nodi. Gan fod effeithiau arwyddocaol tebygol ac ansicrwydd wedi cael eu nodi yn y cam sgrinio, mae'n rhaid i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fynd ymlaen i'r ail gam (Asesiad Priodol) bellach lle bydd yr effeithiau a'r ansicrwydd posibl a nodwyd yn cael eu hystyried yn fwy manwl, gan gynnwys unrhyw liniaru a gynigiwyd eisoes a nodi lliniaru ychwanegol os oes angen.

3.2.4 Bydd yr Asesiad Priodol yn golygu asesu a allai cyfanrwydd neu amcanion cadwraeth safle Ewropeaidd/ Ramsar gael eu heffeithio gan raglenni'r CCCT a bydd yn cynnwys asesiadau o effeithiau cyfunol. Yn rhan o hyn, dylid cynnal adolygiad o'r Cynlluniau Gwelliant wedi'i Flaenoriaethu ar gyfer y safle Ewropeaidd a allai gael eu heffeithio i ddiffinio'r llwybrau effaith a dilysu unrhyw effaith arwyddocaol debygol.

### Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

3.2.5 Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ceisio asesu'r CCCT ar gyfer ei effaith ar y naw nodwedd warchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

3.2.6 Mae'r CCCT yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd trwy ddatblygu system sy'n hygyrch i bob aelod o gymdeithas ac yn cael

## 3.5 Argymhellion

3.5.1 Nodir yr argymhellion a gynigir yn yr Adroddiad ACI Interim ar gyfer y CCCT drafft yn Nhabl 3-7 isod. Mae'r tabl hefyd yn nodi ymateb tîm Trafnidiaeth Cymru i'r argymhellion hyn.

*Tabl 3-7: Argymhellion i'r CCCT drafft*

| Adran y CCCT | Argymhelliad Arcadis | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| **Cyffredinol** | | |
| Dylai'r CCCT gynnal a gwella rhwydwaith seilwaith gwyrdd iach, pan fo'n bosibl, i arwain at nifer o fanteision, gan gynnwys lleihau'r perygl o golli bioamrywiaeth. Mae manteision eraill yn cynnwys gwella bioamrywiaeth drefol fel cynefinoedd a rhywogaethau, gwella iechyd a llesiant pobl, cynorthwyo i leihau'r perygl o lifogydd naturiol, gwella ansawdd dŵr ac ansawdd aer, helpu i ddiogelu golygfeydd pwysig, sgrinio datblygiadau sy'n amharu ar y dirwedd neu gymeriad hanesyddol, helpu i leihau gwresogi trefol a chynorthwyo dal a storio carbon. Po fwyaf yw maint a chysylltedd y rhwydwaith seilwaith gwyrdd, po fwyaf y manteision. | | Rydym yn cefnogi'r argymhelliad cyffredinol a byddem yn nodi bod y nodau hyn eisoes wedi'u cynnwys mewn amrywiaeth o ddogfennau. Bydd yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru yn ymgorffori'r rhain mewn rhaglenni a phrosiectau o'r camau datblygu cynnar ac mae ein cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a Llinellau Craidd y Cymoedd yn rhoi sylw i nifer o'r materion hyn yn ein gweithrediadau seilwaith. |
| Dylid cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) mewn datblygiadau pan fo'n briodol, ac mae'r manteision yn cynnwys lleihau'r tebygolrwydd o lygryddion yn cyrraedd cyrsiau dŵr cyfagos gan helpu i leihau llygredd dŵr, lleihau dŵr ffo trwy leihau arwynebau anhydraidd, caniatáu i ddŵr ymdreiddio i'r ddaear gan helpu i atal llifogydd dŵr wyneb, a bod o fudd i'r ecosystem leol. | | Ceir gofynion ar waith eisoes i SDCau gael eu cynnwys mewn datblygiadau y bydd rhaglenni yn y CCCT yn eu hymgorffori. |
| Dylai'r CCCT hybu'r defnydd o ddeunydd ailgylchu, carbon isel neu o ffynonellau lleol mewn datblygiadau pan fo'n briodol, i helpu i leihau faint o ddeunyddiau crai sy'n cael eu cloddio. Gall hyn hefyd sicrhau bod datblygiad yn cyd-fynd â'r tirweddau a'r trefluniau cyfagos. | | Rydym yn cefnogi'r argymhelliad. Byddem yn disgwyl i'r materion hyn gael eu cymryd i ystyriaeth gan y rhai sy'n datblygu ac yn darparu'r prosiectau unigol. |
| Dylai'r CCCT sicrhau bod staff yn y sector trafnidiaeth yn cael eu hyfforddi i sicrhau y gallant | | Rydym wedi datblygu ac wrthi'n datblygu canllawiau pellach i |

| Adran y CCCT | Argymhelliad Arcadis | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| ddarparu'r gwasanaethau gorau i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith a chefnogi defnydd o'r Gymraeg pan fo'n briodol. | | sectorau ar gefnogi a defnyddio'r Gymraeg. Rhoddir y cyfle i staff Trafnidiaeth Cymru gyflawni hyfforddiant Cymraeg a darperir hyfforddiant arall iddynt yn gysylltiedig â'r Gymraeg sy'n briodol i'w swyddi. |
| Dylai llwybrau teithio llesol newydd ac wedi'u diweddaru gynnwys goleuadau deuodau allyrru golau cyfeiriadol i sicrhau bod golau yn gwasgaru cyn lleied â phosibl, yn enwedig mewn ardaloedd tawel ac yn agos atynt. Gall hyn hefyd helpu i wella diogelwch ar hyd llwybrau trwy ddarparu gwelededd. | | Mae gennym ganllawiau helaeth ar ddatblygu llwybrau teithio llesol ac mae'r ystyriaethau hyn wedi'u cynnwys yn y canllawiau a hefyd trwy broses gatiau cyfnodau datblygu prosiect. Mae hyn yn sicrhau bod amrywiaeth o ffactorau yn cael eu hystyried ac y darperir yr ateb mwyaf priodol yn seiliedig ar yr amgylchiadau lleol penodol. |
| **Dulliau a Sectorau** | | |
| Teithio Llesol | Dylid cyfeirio ymhellach at ddylunio llwybrau teithio llesol ar gyfer y rhai â symudedd/golwg cyfyngedig. | Mae testun ychwanegol wedi'i gynnwys yn y CCCT yn nodi hyn. |
| | Dylid cynnwys mynediad at gyfleusterau addysg Gymraeg yn y broses o wella llwybrau teithio llesol. | Mae testun ychwanegol wedi'i gynnwys yn y CCCT yn nodi hyn. |
| | Dylai'r CCCT sicrhau bod unrhyw lwybrau teithio lleol newydd yn gydnerth o ran yr hinsawdd trwy ddylunio ac adeiladu. | Mae hyn wedi'i gynnwys yn y canllawiau teithio llesol. |
| Ffyrdd, Strydoedd a Pharcio | Dylai'r CCCT gynnwys mesurau i geisio lleihau effaith y rhwydwaith ffyrdd o ran llygredd sŵn a golau trwy gynnwys deunyddiau adeiladu ffyrdd penodol neu ddefnyddio clustogfeydd naturiol, a allai hefyd gyfrannu at well bioamrywiaeth ac ansawdd aer. | Mae testun ychwanegol wedi'i gynnwys yn y CCCT yn nodi hyn. |

| Adran y CCCT | Argymhelliad Arcadis | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| Y Trydydd Sector | Dylid cyfeirio at wella hygyrchedd i gymunedau Cymraeg eu hiaith a thrwy hynny cynorthwyo'r cymunedau hyn, e.e. yn y gogledd ac ym Mhenrhyn Llŷn yn ogystal â'r gorllewin. | Mae testun ychwanegol wedi'i gynnwys yn y CCCT yn nodi hyn. |
| Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat | Dylid ymgorffori safonau yn ymwneud â'r Gymraeg yn yr hyfforddiant arfaethedig i yrwyr. | Bydd hyn yn cael ei ystyried a'i ymgorffori fel sy'n briodol yn y safonau trwyddedu newydd a gofynion hyfforddiant wrth iddynt gael eu datblygu. |
| | Dylai'r CCCT sicrhau na fyddai mynediad at dacsis a cherbydau hurio preifat trydan yn cael ei leihau, ac y bydd y seilwaith cerbydau trydan yn cael ei ehangu ar draws Cymru drefol a gwledig. | Rydym wedi ymrwymo i gadw a phan fo'n bosibl gwella nifer y cerbydau hygyrch. Mae'r fflyd lawn o 50 o dacsis trydan yr ydym wedi eu caffael ar gyfer y cynlluniau "profi cyn prynu" i gyd yn hygyrch. Bydd ein rhaglenni ehangach ar wefru cerbydau trydan yn cefnogi datblygiad seilwaith cerbydau trydan ym mhob rhan o Gymru. |
| Cludo Nwyddau a Logisteg | Dylai'r CCCT gyfeirio at fanteision sŵn fflyd wedi'i datgarboneiddio. | Mae testun ychwanegol wedi'i gynnwys yn y CCCT yn nodi hyn. |
| **Rhaglenni** | | |
| Teithio Llesol | Dylai'r CCCT sicrhau y gall defnyddwyr cadair olwyn a'r rhai ag anableddau gael mynediad at ddarpariaeth teithio llesol. | Mae hyn wedi'i gynnwys yng nghanllawiau'r ddeddf teithio llesol ac mae testun ychwanegol wedi'i gynnwys yn y CCCT yn nodi hyn. |
| Bysiau | Dylai seilwaith newydd, gan gynnwys y canolfannau cyfnewid, gynnwys darpariaeth teithio llesol, gan gynnwys mannau storio beiciau a llwybrau cerdded diogel. | Er nad yw wedi ei gynnwys yn benodol yn yr adran bysiau, mae hyn eisoes wedi'i gynnwys yn adran teithio llesol y CCCT a bydd yn cael ei ymgorffori mewn canllawiau arfer gorau ar gyfnewidfeydd sy'n cael eu datblygu. |

| Adran y CCCT | Argymhelliad Arcadis | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| | Dylai'r gwaith o ail-ddylunio'r rhwydweithiau bysiau gynnwys llwybrau i nodweddion diwylliannol a mannau hamdden allweddol a chynnwys bysiau mwy aml ar gyfer digwyddiadau diwylliannol mwy. | Bydd y rhain yn rhan o'r ystyriaethau yn y gwaith o ail-ddylunio'r rhwydwaith. |
| Rheilffyrdd/ Prif Reilffordd De Cymru | Dylai gwelliannau i gapasiti ac amlder annog trenau hwyr yn y nos i gynnig mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl digwyddiadau hwyrach i leihau dibyniaeth ar dacsis a cherbydau personol. | Wrth ddatblygu gwasanaethau, bydd ystyriaeth gytbwys o'r gost, y defnydd a'r manteision ehangach y gall gwasanaethau eu cynnig ar sail llwybrau unigol. |
| Metro Gogledd Cymru | Dylid lleoli gorsafoedd a chyfnewidfeydd newydd o fewn pellter cerdded i ganolfannau cyflogaeth neu breswyl. | Ceir llawer o faterion y mae'n rhaid eu hystyried wrth leoli gorsaf neu gyfnewidfa newydd a byddai'r rhain yn ffactor arwyddocaol. Rydym hefyd yn cefnogi datblygiad seiliedig ar drafnidiaeth o safleoedd nad ydynt yn dibynnu ar y car ac sy'n cael eu gwasanaethu neu a allai gael eu gwasanaethu yn rhwydd lwybrau cerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. |
| | Dylai gwelliannau i gapasiti ac amlder annog trenau hwyr yn y nos i gynnig mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl digwyddiadau hwyrach. | Wrth ddatblygu gwasanaethau, bydd ystyriaeth gytbwys o'r gost, y defnydd a'r manteision ehangach y gall gwasanaethau eu cynnig ar sail llwybrau unigol. |
| Metro Bae Abertawe a Gorllewin Cymru | Argymhellir y dylid cadw'r opsiwn o dalu gydag arian parod a defnyddio tocynnau papur ar ôl cyflwyno tocynnau digidol a thocynnau integredig. | Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu cadw tra bod galw amdanynt. Wrth ddatblygu ein hatebion tocynnau talu wrth deithio, byddwn yn archwilio'r defnydd o gardiau talu ymlaen llaw i alluogi'r rhai nad oes ganddynt gardiau banc i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn. |

| Adran y CCCT | Argymhelliad Arcadis | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| | Os bydd y treialon yn llwyddiannus, dylai'r CCCT sicrhau ei fod yn cefnogi ehangu'r defnydd o fysiau hydrogen a thrydan a chyflwyno trenau hybrid i ddatgarboneiddio'r rhwydwaith ymhellach. | Amcan ein treialon yw canfod yr opsiwn gorau ar gyfer pob defnydd penodol. Rydym wedi ymrwymo i gyflwyno bysiau dim allyriadau pibell fwg ar gyfer y fflyd gyfan erbyn 2035. |
| | Dylai datblygiad a detholiad llwybr cyswllt Rheilffordd Abertawe i Aberystwyth ystyried cydnerthedd yn erbyn llifogydd ac erydu arfordirol, yn ogystal â digwyddiadau tywydd eithafol, gan sicrhau bod y llwybr yn osgoi morlinau pan fo'n bosibl. | Bydd y rhain yn cael eu hystyried gan eu bod yn ystyriaethau yn ein holl ddatblygiadau o gynlluniau mawr. |
| Metro De Cymru | Dylai'r CCCT gynnwys darpariaeth ar gyfer targedau golau o sŵn o gwmpas ardaloedd tawel a Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol Bannau Brycheiniog, i sicrhau na achosir unrhyw effeithiau niweidiol mewn ardaloedd tawel. | Ystyrir llygredd sŵn a golau yn natblygiad pob prosiect trwy broses Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Gan fod y cynlluniau y cyfeirir atynt yn dal i fod ar gamau cynnar eu datblygiad, nid yw'n bosibl pennu targedau ar hyn o bryd. |
| Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | Argymhellir y dylai gwelliannau i'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol gynnwys darpariaeth o orsafoedd gwefru cerbydau trydan. | Mae hyn wedi'i gynnwys yn ein rhaglen gwefru cerbydau trydan. |
| Gwefru Cerbydau Trydan | Dylai'r CCCT geisio sicrhau bod pwyntiau gwefru cerbydau trydan newydd yn defnyddio tir llwyd lle bynnag y bo'n bosibl. | Rydym yn cefnogi'r dull hwn, ond bydd yn destun ystyriaethau cynllunio lleol ar sail achosion unigol. |
| Cludo Nwyddau a Logisteg | Dylai'r strategaeth geisio lleihau rhwystrau rhwng gwledydd y DU ac arwain at gynnydd i effeithlonrwydd, gan arwain at ddatblygiad economaidd ehangach. | Byddem yn disgwyl i hyn fod yn rhan o'r cynllun cludo nwyddau a logisteg a nodwn y cafodd amcanion tebyg eu cynnwys yn argymhellion diweddar Adolygiad Cysylltedd yr Undeb, yr ydym yn eu cefnogi. |

| Adran y CCCT | Argymhelliad Arcadis | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| Strydoedd a Pharcio | Dylai'r polisïau sy'n cael eu llunio gynnwys darpariaeth ar gyfer mannau parcio i bobl anabl a theuluoedd. | Mater i awdurdodau lleol yw hwn yn gyffredinol, y mae'n rhaid iddynt reoli'r rhain ar sail lleoliadau penodol. |
| Ansawdd Aer | Dylai'r Strategaeth Aer Glân newydd gynnwys targedau penodol ar gyfer lleihau $NO_2$, osôn ar lefel y ddaear a deunydd gronynnol ar gyfer ardaloedd llygredd uchel i sicrhau bod ansawdd aer yn cael ei wella, a fyddai o fudd i iechyd corfforol. | Nid yw'r rhain o fewn cwmpas y CCCT ond byddant yn rhan o'r Cynllun Diweddaru ar Ansawdd Aer yr ymgynghorwyd arno yn 2021 ac a fydd yn rhan o Fil Aer Glân (Cymru) yr ydym yn gobeithio ei gyflwyno yn 2023. |
| | Dylid cyfyngu datblygiad mewn ardaloedd tawel i osgoi allyriadau llygredd sŵn, golau neu aer, a dylai gwaith gael ei wneud yn ystod oriau cymdeithasol yn unig. Gallai TAN11 gynnwys canllawiau yn ymwneud â chynyddu llystyfiant. | Er ei fod yn ddymunol am resymau eraill fel diogelwch ac ymyrraeth, efallai na fydd bob amser yn bosibl gwneud gwaith yn ystod oriau cymdeithasol, yn enwedig ar rannau o'r rhwydwaith rheilffyrdd. Bydd TAN 11 yn darparu cyngor ar sŵn a seinwedd a fydd yn cynnwys cyngor ar y materion hyn. |
| Hedfanaeth | Dylai Llywodraeth Cymru gymryd rhan mewn trafodaethau gyda Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig i sicrhau bod targedau yn y Cynllun Hedfan Amgylcheddol yn cael eu bodloni. | Mae hyn yn rhan o'n hymgysylltiad parhaus â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig ar eu Llwybr Hedfan Amgylcheddol. |
| | Dylai'r CCCT geisio gwella cysylltedd hedfanaeth rhwng gogledd a de Cymru neu wella trafnidiaeth gyhoeddus i bob maes awyr hygyrch i'r rhai sy'n byw yn y gogledd neu'r canolbarth. | Mae ein rhaglenni trafnidiaeth, gan gynnwys ailddylunio'r rhwydwaith bysiau a rhaglenni rheilffyrdd a Metro yn ceisio gwella cysylltedd â phob gwasanaeth a chyrchfan allweddol. |

| Adran y CCCT | Argymhelliad Arcadis | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|---|
| | Dylai'r CCCT annog y fersiwn nesaf o'r Llwybr Hedfan Amgylcheddol i adeiladu ar y gwaith hwn a cheisio lleihau'r defnydd o danwyddau ffosil a'u hallyriadau ymhellach trwy drafodaeth barhaus â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig, gan gynnwys trwy gynyddu nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan, a nifer y cerbydau trydan o fewn gweithrediadau'r maes awyr. | Mae hyn yn rhan o'n hymgysylltiad parhaus â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig ar eu Llwybr Hedfan Amgylcheddol. |
| | Dylai'r CCCT annog cynlluniau a rhaglenni pellach yn rhan o Lwybr Hedfan Amgylcheddol Caerdydd a fyddai'n gwella ansawdd aer trwy drafodaeth barhaus gyda Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig, gan gynnwys gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gwell i Faes Awyr Caerdydd. | Mae hyn yn rhan o'n hymgysylltiad parhaus â Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig ar eu Llwybr Hedfan Amgylcheddol. Bydd y ddarpariaeth o gysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus â Maes Awyr Caerdydd yn rhan o'n rhaglen Metro De Cymru ac ail-ddylunio'r rhwydwaith bysiau. |
| Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat | Dylai'r CCCT a'r Papur Gwyn ar drwyddedu tacsis/cerbydau hurio preifat gynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddwyr anabl a dylai'r hyfforddiant i yrwyr gynnwys canllawiau arfer gorau i sicrhau bod gan ddefnyddwyr anabl well mynediad at gerbydau hurio preifat. Dylai ymgysylltiad â rhanddeiliaid ar ddiwygiadau posibl gymryd i ystyriaeth yr holl safbwyntiau gan bobl o amrywiaeth o gefndiroedd i sicrhau y byddai'r diwygiadau o fudd i gynifer o bobl â phosibl. | Er ei fod y tu allan i gwmpas y CCCT, bydd datblygiad diwygiadau trwyddedu tacsis/cerbydau hurio preifat yn cynnwys yr eitemau hyn. |

[1] Ar gael yn: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru [Gwelwyd: 23.03.22]
[2] Ar gael yn: Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 23.03.22]
[3] Ar gael yn: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 23.03.22]
[4] Ar gael yn: *Estimating the mortality burden of air pollution in Wales_V15.docx* (live.com) [Gwelwyd: 22.03.22]
[5] Ar gael yn: Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021 | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 23.03.22]
[6] Ar gael yn: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 24.03.22]
[7] Ar gael yn: Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru: llif prosiectau Mawrth 2021 | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 24.03.22]
[8] Ar gael yn: Y strategaeth buddsoddi yn seilwaith Cymru 2021 | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 24.03.22]
[9] Ar gael yn: Cymru Sero Net | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 23.03.22]
[10] Ar gael yn: 42949 Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru Gyfan (2021-2025) (llyw.cymru) [Gwelwyd: 23.03.22]
[11] Ar gael yn: EUR-Lex - 32001L0042 - EN - EUR-Lex (europa.eu) [Gwelwyd: 23.03.22]
[12] Ar gael yn: Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (legislation.gov.uk) [Gwelwyd: 23.03.22]
[13] Ar gael yn: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk) [Gwelwyd: 22.03.22]
[14] Ar gael yn: deddf-llesiant-cenedlaethau'r-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf (llyw.cymru) [Gwelwyd: 22.03.22]
[15] Ar gael yn: deddf-llesiant-cenedlaethau'r-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf (llyw.cymru) [Gwelwyd: 22.03.22]
[16] Ar gael yn: *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive* (publishing.service.gov.uk) [Gwelwyd: 22.03.22]
[17] Ar gael yn: Diweddariad i Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040 (llyw.cymru) [Gwelwyd 22.03.22]
[18] Ar gael yn: Ffyniant i bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 24.03.22]
[19] Ar gael yn: Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 24.03.22]
[20] Ar gael yn: Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 24.03.22]
[21] Ar gael yn: Polisi cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 24.03.22]
[22] Ar gael yn: cynllun-hyrwyddo-cydraddoldeb-rhwng-y-rhywiau.pdf (llyw.cymru) [Gwelwyd 22.03.22]
[23] Ar gael yn: Cymru Sero Net Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025) | LLYW.CYMRU [Gwelwyd: 24.03.22]
[24] Ar gael yn: Cynllun Adfer Natur Cymru - Rhan 1: Ein Strategaeth ar gyfer Natur (llyw.cymru) [Gwelwyd 22.03.22]

